# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

**19 HYDREF 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** G. Davies, S. Godfrey-Coles a J.D. James

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr;
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion;
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod:- 10:45yb - 11:05yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD M.J. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i M.J i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter statudol i'r ysgol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr apêl, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ar y sail bod cyfeiriad cartref M.J o fewn pellter statudol i ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol a bod llwybr cerdded yn addas yn ôl yr asesiad a wnaed yn unol â Meini Prawf Llywodraeth Cymru.**

| ________________________ | ________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |